

## Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

### Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

*O dan Rheol Sefydlog 6.4, atebwyd y cwestiynau gan y Gweinidog Cyllid ar ran y Prif Weinidog.  
Under Standing Order 6.4, the questions were answered by the Finance Minister on behalf of the First Minister.*

#### Ariannu Ysgolion School Funding

**Q11 Mark Isherwood:** Will the First Minister make a statement on school funding? OAQ0229(FM)

**C11 Mark Isherwood:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch ariannu ysgolion? OAQ0229(FM)

**The Finance Minister (Sue Essex):** Funding for schools is provided on an unhypothecated basis through the local government revenue settlement. Local authorities are best placed to judge local needs and circumstances and to fund schools accordingly. They are accountable to their electorates for the decisions that they make.

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Darperir cyllid heb ei glustnodi i awdurdodau lleol drwy'r setliad refeniw llywodraeth leol. Awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i asesu anghenion ac amgylchiadau lleol ac i ariannu ysgolion yn ôl y gofyn. Maent yn atebol i'r etholwyr am y penderfyniadau a wnânt.

#### Y Diwydiant Gweithgynhyrchu The Manufacturing Industry

**Q12 Mick Bates:** What action is the Assembly Government taking to help the manufacturing industry in Wales? OAQ0221(FM)

**C12 Mick Bates:** Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i helpu'r diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghymru? OAQ0221(FM)

**Sue Essex:** In January 2004, manufacturing sector representatives were invited to form a task and finish group to advise on how to fine-tune the extensive support already available to the sector in Wales. The group reported in May 2004 and its recommendations have influenced the review of a number of key policies.

**Sue Essex:** Yn Ionawr 2004, gwahoddwyd cynrychiolwyr o'r sector gweithgynhyrchu i ffurfio grŵp gorchwyl a gorffen i roi cyngor ynghylch sut y dylid mireinio'r cymorth helaeth sydd ar gael yn barod i'r sector yng Nghymru. Cyflwynodd y grŵp adroddiad ym Mai 2004, a dylanwadodd ei argymhellion ar nifer o bolisiau allweddol.

#### Prynwyr Tŷ Cyntaf First-time Buyers

**Q13 Helen Mary Jones:** Will the First Minister detail what additional help he will provide to first-time buyers during the next 12 months? OAQ0210(FM)

**C13 Helen Mary Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru roi manylion am y cymorth ychwanegol y bydd yn ei roi i bobl sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf yn ystod y deuddeg mis nesaf? OAQ0210(FM)

**Sue Essex:** The Minister for Social Justice and Regeneration presented a comprehensive paper on housing policy to committee on 23 February. That identifies the help that we are currently providing to first-time buyers and other action, which we will be considering over the next year or so.

**Sue Essex:** Cyflwynodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio bapur cynhwysfawr ar bolisi tai i'r pwyllgor ar 23 Chwefror. Roedd yn nodi'r cymorth a roddwn ar hyn o bryd i brynwyr tŷ cyntaf a chamau eraill, y byddwn yn eu hystyried dros y flwyddyn nesaf.

#### **Ariannu o Ewrop yn y Dyfodol ar ôl 2006 European Funding Post 2006**

**Q14 Jenny Randerson:** Will the First Minister make a statement on future European funding post 2006? OAQ0222(FM)

**C14 Jenny Randerson:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch ariannu o Ewrop ar ôl 2006? OAQ0222(FM)

**Sue Essex:** I refer you to the answer that I gave earlier to OAQ0217(FM).

**Sue Essex:** Fe'ch cyfeiriai at yr ateb a roddais yn gynharach i OAQ0217(FM).

#### **Tasglu Byd-eang Rhithwir Virtual Global Taskforce**

**Q15 Gwenda Thomas:** Will the First Minister make a statement on any discussions that he has had with the UK Government regarding the recently launched virtual global task force, as a way of protecting children in Wales from abuse via the internet? OAQ0225(FM)

**C15 Gwenda Thomas:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynglŷn â'r tasglu byd-eang rhithwir, a lansiwyd yn ddiweddar, fel modd o amddiffyn plant yng Nghymru rhag cael eu cam-drin drwy'r rhyngwrwyd? OAQ0225(FM)

**Sue Essex:** I have had no such discussions, but Assembly Government officials maintain close contact with the Home Office on matters relating to child abuse via the internet. The website launched earlier this year by the task force will provide information to all users on how to use the internet safely and on how to report on-line child abuse to law enforcement agencies.

**Sue Essex:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau o'r fath, ond mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad mewn cysylltiad agos â'r Swyddfa Gartref ar faterion yn ymwneud â cham-drin plant drwy'r we. Bydd y wefan a lansiwyd yn gynharach eleni gan y tasglu yn darparu gwybodaeth i bob defnyddiwr ar sut i ddefnyddio'r rhwyngwrwyd yn ddiogel ac ar sut i roi gwybod i asiantaethau gweithredu'r gyfraith am achosion o gam-drin plant ar-lein.